

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS  
FAWRTH 8FED O IONAWR 2019 YN Y PAFILIWN, RHEWL AM 7.45 P.M.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Ian Hession (Cadeirydd), Siân Davies, Wyn Wilkinson, Mike Denman, Iona Jones, Clwyd Thomas, Arwel Jones, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry, Cyngorydd Gordon Hughes (Aelod o'r Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych) a'r Clerc.

1: CROESO: Croesawodd y Cadeirydd i'r Cyngorydd Gordon Hughes o'r Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel sylwedydd a'r rhan y Pwyllgor Safonau'r Sir.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Brynle Lloyd a Dewi Roberts.

3. DDATGAN DIDDORDEB: Dim yn codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 13eg o Dachwedd 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Nicola Kneale fod y "Park Run Group" wedi ei sefydlu yn Rhuthun erbyn hyn gan fod yna llwybr cyhoeddus wedi ei sefydlu wrth y Stad Glasdir sydd yn addas i'r Mudiad yn hytrach na'r llwybr cyhoeddus "Lady Bagot's Drive" yn Rhewl.

B. Derbyniwyd adroddiad BT nad oedd yna unrhyw wrthwynebiad i dynnu'r ffon o'r Ciosg Bocs Ffon Goch Gyhoeddus BT yn Llanynys ac mae'r adeilad ar gael i'r Cyngor Cymuned am £1.00. Penderfynwyd yr Aelodau i brynu'r adeilad am £1.00 ac i'r Clerc arwyddo'r contract dros y Cyngor Cymuned.

C. Nid oedd yna adroddiad oddi wrth gynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru a fynychodd cyfarfod blaenorol y Cyngor. Penderfynwyd gwahodd cynrychiolaeth o'r Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod nesaf y Cyngor.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc £14,873.00.

B. Derbyniwyd y drydedd rhan olaf o'r 2018/19 Precept y Cyngor £3,059.00.

C. Tal i BT am bryniant y "Ciosg Bocs Ffon Goch" Llanynys am £1.00.

7. PRECEPT 2019/2020 Y CYNGOR.

Derbyniwyd adroddiad y Clerc mi fydd y costau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol ar gyfartaledd ar precept a chodwyd yn ystod y flwyddyn yn gadael oddeutu £8,400.00 yn y Banc sydd ar gael i unrhyw wariant ychwanegol a ddaw. Penderfynwyd yr Aelodau i adael yr Precept am y flwyddyn ariannol 2019/2020 ar £9,450.00 sydd ar gyfartaledd o £25.00 ar y 378 o dai sydd yn talu Treth y Cyngor ar 31ain o Hydref 2018.

8. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio i'r diwygiad i'r ffenestri ac ymddangosiad allanol o'r annedd (diwygio anfaterol) yn Brŷn Clwyd, Rhewl.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio i drosi ac addasu adeilad allanol ynghlwm i ffurfio estyniad i'r annedd presennol ym Mhen-y-bryn, Rhewl.

C. Cynlluniau diwygiedig/wybodaeth ychwanegol i'r cais cynllunio i godi uned gynhyrchu wyau rhydd gan gynnwys seilos a gwaith cysylltiedig gan gynnwys mynediad ym Mhlas Llanynys, Llanynys - dim gwrthwynebiad.

#### 9. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth i'r Clerc.

#### 10. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth y Cynghorydd Merfyn Parry:-

A: Yn gofyn i'r "Gwasanaethau Cwsmer" adroddi yn ôl i'r unigolyn/mudiad gyda'r ymateb y Swyddogion y Sir sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

B. Adroddwyd y Rheolwr Asedau yn cadarnhau nid oes yna ddefnydd i'r adeilad Ysgol Rhewl gan y Cyngor Sir a bod chwarter y safle mae'r Cyngor Sir yn berchen gyda'r gweddill mewn perchnogaeth Ymddiriedolaeth.

C. Chadarnhawyd Swyddog Datblygu Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych fod yna £29,753.00 wedi eu clustnodi i'r gymuned leol fel amod o'r ceisiadau cynllunio stadau Rhyd-y-byll, Cwrt Arthur a Lon-yr-Eglwys yn Rhewl.

D. Amserlen Cronfeydd Budd Cymunedol Brenig a Fferm Wynt Coedwigaeth Clocaenog.

#### 11. MATERION BRYD ADLAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych i ofyn am waith cyfalaf blaenoriaeth i'r ffyrdd canlynol yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/2020:-

1. Ffordd heibio Fron Heulog/Tŷ Mawr/Bryn Eglur, Llanrhaeadr.

2. Ffordd heibio Erw Deg/Pen-y-Garth/Ffrith yn Llanrhaeadr.

B. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych fod y gwrych gardd Plas Isaf, Rhewl wedi cau'r llwybr cyhoeddus.

12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Nos Fawrth 12fed o Fawrth 2019 yn Y Pafiliwn, Rhewl am 7.45 p.m.